Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 30 Ionawr 2018

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts (Is-gadeirydd), A. Jones, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, Mervyn Jones, H. Huws, A. Williams, D. Jones,
D. Owen (Clerc),

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	E. Parry, R. Williams (Cynghorwr Sir)		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Ionawr 2018**		
3.1	Nodwyd bod casgliad o £167.40 wedi gwneud i Hosbis yn y Cartref ar y Noson Garolau		
3.2	Nodwyd bod rhai biliau angen eu gyrru allan ar gyfer archebu plotiau yn y Fynwent		
3.3	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio, derbyniwyd y rhai dderbyniwyd fel rhai cywir		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	Nodwyd bod G. C. Jones wedi mynychu cyfarfod Unllais ardal Sir Fon. Nodwyd fod Swyddog Betsi Cadwaladr wedi bod yno yn siarad, nodwyd bod dim diweddariad am safle'r Feddygfa. Cytunwyd i ofyn I'r Swyddog ddod i gyfarfod.		
4.2	G. C. Jones yn nodi o gyfarfod Unllais bod yr Archwiliwr mewnol John D. Roberts yn rhoi gorau i wneud ac mae felly angen i Gynghorau Tref a Chymuned benodi Archwilir Mewnol newydd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cynnig y gwasanaeth ond am gost mwy na'r presennol.		
4.3	Peilonau - G. C. Jones yn adrodd bod Cyfarfod yn Nhre Ysgawen ar 1af Chwefror am 7:00yh		
4.4	Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru - G. C. Jones yn cadarnhau bod penderfyniad terfynol i'w wneud yn ystod Chwefror, ond mae Cynghorau Tref a Chymuned i fod wedi clustnodi arian yn eu Cyllideb ar gyfer Lwfans blynyddol i Gynghorwyr Tref a Chymuned.		
4.5	Siarter rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned - CSYM wedi derbyn sylwadau gan Bwyllgor Unllais. Mae Portal Cynllunio Ynys Môn wrthi'n cael ei sefydlu, er mwyn i Glercod rannu gwybodaeth gyda Chynghorwyr i osgoi'r broblem o ymateb o fewn yr amserlen briodol. Nodwyd ni fydd ceisiadau Cynllunio ar bapur yn cael ei gylchredeg o Fis Ebrill ymlaen.		
4.6	A. Mummery yn nodi bod ymholiadau yn parhau gyda CSYM ar ôl llifogydd Tachwedd. G. C. Jones yn nodi ei fod wedi cael copi o adroddiad Stad Y Wern. Cytunwyd i Bwyllgor Amgylchedd ac Eiddo drafod pan fydd yn cael ei dderbyn.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Rhagfyr 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery yn nodi bod aelod o'r cyhoedd i weld yn cymryd y mater ymlaen a bod diddordeb lleol yn codi. S.Edwards y nodi bod cyfle da i wella'r sefyllfa parcio a llwybrau wrth y safle. Cytunwyd i ddatgan pryder i CSYM a gofyn iddynt edrych ar y mater.	**D. Owen**	**27/02/18**
6.2	Cloc - Cadarnhad wedi ei anfon i'r Contractwr I wneud y gwaith ar y cloc yn dilyn tynnu i lawr y Goeden Nadolig	**D. Owen**	**27/02/18**
6.3	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - Cytunwyd i gynnal cyfarfod cyhoeddus yng Ngwanwyn 2018.	**D. Owen**	**Gwanwyn 2018**
6.4	Grantiau - Clerc i yrru'r ffurflen i mewn cyn gynted â phosib	**D. Owen**	**c.g.a.p**
6.5	Biniau Baw Ci - CSYM am symud y bin ac am edrych ar y sefyllfa biniau baw ci	**D. Owen**	**27/02/18**
6.6	Cais cynllunio Hen Lon Dyfnia - Nodwyd fod ymateb wedi derbyn ar e-bost, a nodwyd	**D. Owen**	**27/02/18**

	fod y cynnig wedi rhwystro gan y ffaith fod caniatâd cynllunio wedi cael ei rhoi ar y safle ar gyfer 11 annedd yn flaenorol. Cytunwyd i dderbyn y cynnig, ac i ofyn i CSYM pryd fydd gwelliannau i'r groesfan yn cael ei wneud.		
6.7	Ymgyrch codi arian Neuadd Goffa - A. Mummery am drafod gyda Dewi Williams a rhoi diweddariad yn Chwefror	**A. Mummery**	
6.8	Cyllideb Cyngor Sir Ynys Môn 2018/19 - Meirion Jones wedi ymateb ar ran y Cyngor Bro. Cyngor Sir yn cysidro sylwadau cyn penderfynu'r Gyllideb.		
6.9	Pencampwr Iaith - G. C. Jones am gael gwybodaeth bellach, nodi bod angen i'r Pencampwr fod yn aelod o'r Cyngor Bro.	**G. C. Jones**	
6.10	Giât Maes Chwarae - A. Jones wedi trafod gyda Andre Le Cras, nodwyd bod giât newydd am gostio £900, ond Andre yn dweud i fod yn gallu newid y giât bresennol a symud y cilbost am gwmpas £500. Cytunwyd i barhau i wneud hynny ar frys oherwydd Iechyd a Diogelwch plant.		
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Cyllid 30 Ionawr 2018**		
7.1	Nodwyd fod y cyfarfod wedi i'w gynnal yr un noson a'r Cyfarfod Cyngor Bro, felly bydd angen cadarnhau'r cofnodion ym Mis Chwefror		
8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	Nodwyd bod angen trefnu cyfarfod Pwyllgor Cyllid yn Chwefror i drafod materion sydd heb drafod yng Nghyfarfod Pwyllgor Cyllid Heno. Cytunwyd i drefnu cyfarfod ar 13 Chwefror 2018 am 7:00yh. Cyfarfod Pwyllgor Fynwent i'w gynnal yn y Gwanwyn	**D. Owen**	
9.0	**Cyllideb 2018/19**		
9.1	Wedi cyfarfod Pwyllgor Cyllid yn Ionawr, argymhellwyd i osod y priseb yn £42,000 wedi taenlen wedi cael ei baratoi ac amcan o wariant o £52,057 ei wneud. Cytunwyd pawb i'r argymhelliad heblaw am J. Roberts oedd yn cynnig cadw'r priseb yn £39,000. Cytunwyd yn unfrydol i'r argymhelliad i osod y priseb yn £42,000 ar gyfer 2018/19		
10.	**Ceisiadau Cynllunio**		
10.1	31C446 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Hafod y Bryn, Lon Tŷ Croes, Llanfairpwll - Dim sylw		
11.0	**Gohebiaeth**		
11.1	Horizon - Wylfa Newydd - Ymgynghoriad ar dir ychwanegol o dan a42 o Ddeddf Cynllunio 2008 - Derbyn y wybodaeth		
11.2	Horizon - Wylfa Newydd - Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009, rheoliad 11 cyhoeddusrwydd cyn ymgeisio o dan adran 48(dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd) - Derbyn y wybodaeth		
11.3	Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn - Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus - Derbyn y wybodaeth		
11.4	Cyngor Ar Bopeth - Llythyr Diolch - Derbyn y wybodaeth		
11.5	Ambiwlans Awyr Cymru - Llythyr Diolch - Derbyn y wybodaeth		
11.6	Cylchgrawn Clerks & Council's Direct - Derbyn y wybodaeth		
11.7	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
12.0	**Materion Brys**		
12.1	J. Roberts yn nodi bod cyfarfod Pwyllgor Ffrindiau Llyfrgell Porthaethwy ar 21 Chwefror 2018 am 7:00yh.	**G. C. Jones**	
12.2	J. Roberts yn nodi bod tua 200 o drigolion wedi mynychu'r ymgynghoriad y Trydydd Bont Mhentref Llanfair. Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 9fed Mawrth 2018, wedi hynny bydd Ken Skates Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud penderfyniad ar gam nesaf y broses.		
12.3	S. Edwards yn gofyn am syniadau neu luniau i roi ar y baneri fydd yn cael ei archebu		

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad